# Adroddiad Arolygu ar

**Gofal Cymunedol Calon Lân**

**Calon Lân**
**10 Vaughan Street**
**Llandudno**
**LL30 1AB**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This Report is also available in English**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

16 Medi 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gofal Cymunedol Calon Lân

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Calon Lan Community Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 10/05/2018 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. |

## Crynodeb

Mae pobl yn hapus â'r gofal a chymorth maent yn eu derbyn gan weithwyr gofal. Mae gweithwyr gofal yn wybodus, yn barchus ac yn ofalgar ac mae niferoedd digonol ohonynt ar gael er mwyn diwallu anghenion pobl. Dywedodd pobl wrthym mai anaml iawn y mae staff gofal yn hwyr ac na chollir galwadau byth. Darperir cefnogaeth mewn modd difrys ac urddasol gan dîm staff cyfeillgar. Mae dogfennau gofal pobl yn fanwl, gan roi cyfarwyddyd priodol i staff ar sut i'w ddarparu. Adolygir cynlluniau gofal a chymorth yn gyson.

Mae pobl yn derbyn cefnogaeth gan wasanaeth a reolir yn dda. Mae tîm o staff brwdfrydig yn cael eu recriwtio'n ddiogel, eu goruchwylio'n gyson, a'u hyfforddi i ddiwallu anghenion cymorth yr unigolyn. Mae rheolwyr yn cynnal archwiliadau manwl o'r gwasanaeth yn rheolaidd a cheisir barn y rhai sy'n derbyn gwasanaeth yn weithredol. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth. Mae gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn gadarnhaol iawn ynghylch y gofal a'r gefnogaeth a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth a ddarperir gan gwmni Calon Lân.

## Llesiant

Ceisir barn pobl yn weithredol a dywedodd unigolion wrthym eu bod yn hyderus y gwrandewir arnynt. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn cael eu trin yn dda, ag urddas a pharch. Dywedasant fod staff yn gyfeillgar a dywedodd staff wrthym eu bod yn edrych ar gynlluniau personol pobl cyn i'r gofal a chymorth gychwyn. Mae dogfennau gofal a chymorth pobl yn fanwl ac yn rhoi digon o gyfarwyddyd i staff ar sut i roi cymorth i unigolion, a dywedodd staff gofal wrthym fod y rhain yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r unigolyn a'i anghenion. Cefnogir pobl gan dimau bach o staff sy'n datblygu perthnasoedd da a phriodol â'r unigolion y maent yn eu cefnogi. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i bobl gyflawni eu canlyniadau.

Mae gan y gwasanaeth fesurau da ar waith i sicrhau bod pobl sy'n derbyn gwasanaeth yn cael eu gwarchod rhag niwed ac maent yn cymryd diogelu unigolion o ddifrif. Mae arferion recriwtio yn gadarn ac mae'r rhan fwyaf o staff gofal wedi eu hyfforddi o ran diogelu. Mae mesurau rheoli heintiau yn fanwl ac mae staff wedi eu hyfforddi ar sut i'w gweithredu. Mae staff yn dilyn cynlluniau gofal yn agos ac mae'r cynlluniau yn adlewyrchu anghenion yr unigolyn yn gywir. Maent hefyd yn dilyn y gofynion a nodir yn y dogfennau cysylltiedig a ddarperir gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd. Mae asesiadau risg yn fanwl ac yn cael eu hadolygu yn gyson.

## Gofal a Datblygiad

Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried ystod o safbwyntiau a gwybodaeth am ddarpar gleientiaid. Ymgynghorir â phobl a/neu eu perthnasau ynglŷn â'u hanghenion a hoffterau gofal cyn i'r gwasanaeth gychwyn i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu eu hanghenion. Mae staff gofal yn edrych ar gynlluniau personol yr unigolion y byddant yn rhoi cymorth iddynt, cyn i'r gwasanaeth gychwyn, i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â gofynion yr unigolyn. Ysgrifennir cynlluniau gofal ar y cyd â'r unigolyn. Cadarnhaodd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ac aelodau teulu yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y gofal a'r cymorth oedd eu hangen ac ymgymerwyd â hyn yn y ffordd yr oedd yr unigolyn eisiau i'w cymorth gael ei ddarparu.

Darperir gofal o ansawdd da i bobl ac mae cefnogaeth wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn, y mae staff gofal yn ymwybodol ohonynt. Mae cynlluniau gofal personol manwl ar waith ac maent yn rhoi cyfarwyddyd cynhwysfawr i staff gofal ar sut i roi cymorth i bobl. Maent yn cael eu hadolygu yn unol â rheoliadau a dywedodd staff gofal wrthym eu bod yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau i gynlluniau personol pobl. Mae cynlluniau gofal yn adlewyrchu'r wybodaeth a geir yn nogfennau asesu'r gwasanaeth ei hun ac mewn dogfennau a ddarperir gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar sut i roi cymorth i'r unigolyn, ac maent yn adlewyrchu dymuniadau'r unigolyn ar sut maent am dderbyn cymorth. Gwnaethom siarad â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a gadarnhaodd fod y darparwr a'i staff gofal yn dilyn cyfarwyddyd ganddynt yn dda. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol gofal iechyd: "*Mae'r darparwr yn dda iawn am gyfathrebu unrhyw bryderon gyda ni yn ogystal â phan fydd pethau'n mynd yn dda.*" Dywedodd gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth fod y cymorth oedd pobl yn ei dderbyn yn dda. Dywedodd un gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthym fod *"pobl wrth graidd y gofal a chymorth a roddir gan y gwasanaeth"* a'i fod *"yn rhoi'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar unigolion*". Dywedodd un unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth wrthym: *"Rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf, nid oes byth unrhyw broblemau gyda staff ddim yn gwybod beth i'w wneud."* Gwelsom hefyd fod cynlluniau risg yn fanwl ac yn gynhwysfawr a'u bod yn cael eu hadolygu ar gyfnodau priodol. Cadarnhaodd pobl eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau rheoli cynhwysfawr yn sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth ac mae polisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd o bob agwedd o'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth, yn ymweld â'r gwasanaeth, yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â rheolwyr, ac yn gwneud arolwg blynyddol â'r staff. Mae'r darparwr yn ceisio barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn weithredol. Cyhoeddir ac anfonir canlyniadau arolygon a gynhaliwyd gan y gwasanaeth at randdeiliaid. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw fod rheolwyr yn barod eu cymwynas. Dywedodd staff gofal wrthym fod rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *"Mae'r rheolwyr yn rheolwyr da iawn iawn."* Dywedodd aelod arall o'r staff gofal wrthym, *"Mae'r holl staff gofal yn hyfryd, mae llwyth o gefnogaeth gan y tîm rheoli."* Roedd yr adborth gan gomisiynwyr yn gadarnhaol yn gyffredinol a gwnaethom hefyd siarad â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a oedd yn hynod ganmoliaethus am effeithiolrwydd rheolwyr a staff y gwasanaeth. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol gofal iechyd wrthym fod y gwasanaeth yn *"hollol dryloyw – maent yn dod yn ôl ataf ag unrhyw broblemau sydd ganddynt". "Mae gen i berthynas dda iawn â'r swyddfa, yn enwedig un o'r rheolwyr."* Hefyd: *"Maent yn mynychu cyfarfodydd trefnus yn ogystal â chyfarfodydd sy'n cael eu cynnal funud olaf."*

Gwelsom dystiolaeth o broses recriwtio gadarn a darperir staff gwybodus mewn niferoedd priodol er mwyn rhoi cymorth i bobl. Dywedodd staff gofal wrthym eu bod yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a phriodol ar gyfer y bobl maent yn rhoi cymorth iddynt a gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn cadarnhau hyn. Fodd bynnag, gwelsom fod ychydig o staff heb dderbyn hyfforddiant cyfredol o ran diogelu a dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd y matrics hyfforddi wedi'i gadw'n gyfredol o ran hyfforddiant gloywi codi a chario a gynhaliwyd. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael â hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf. Gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth, arfarniadau a hapwiriadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chadarnhawyd gan staff eu bod yn cael eu cynnal. Gwelsom hefyd gyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal.

Mae'r darparwr yn cymryd diogelu o ddifrif ac mae ganddo fecanweithiau da ar waith er mwyn diogelu'r unigolion y mae'n rhoi cymorth iddynt. Mae'r polisi diogelu yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn cael eu dilyn, gyda pholisïau ar waith i staff eu dilyn. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau cynhwysfawr ac mae'n rheoli risgiau o ran heintiau yn dda. Ers pandemig y coronafeirws, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu gweithdrefnau ychwanegol yn ymwneud â hyn, sy'n fanwl. Cadarnhaodd staff gofal fod digon o stoc o gyfarpar diogelu personol ganddynt a dywedodd pobl sy'n derbyn gwasanaeth a gweithwyr gofal wrthym fod cyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo bob amser.

Dywedodd staff gofal wrthym fod ganddynt ddigon o amser er mwyn gwneud eu galwadau. Dywedodd pobl sy'n derbyn y gwasanaeth a'u perthnasau wrthym fod staff gofal yn treulio eu hamser penodedig yn rhoi cymorth, a'u bod prin iawn yn hwyr. Dywedodd pobl wrthym na chollir galwadau byth. Mae rotâu staff yn cadarnhau bod pobl yn derbyn parhad cymorth da gan dimau bach o staff gofal. Cadarnhaodd y bobl sy'n derbyn cymorth a'u perthnasau hefyd fod hyn yn gywir. Dywedodd un unigolyn wrthym ei

fod yn derbyn cymorth gan *“dîm bach o staff”*.Dywedodd rhywun arall wrthym: *“Mae gen i grŵp bach o ofalwyr ac, os oes unrhyw newidiadau i’r gofalwyr, os yw rhywun yn sâl, mae’r swyddfa’n gadael i mi wybod pwy yw’r gofalwr arall.”*

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 11/01/2022'